Harri Tudur 1491–1547

Brenin Lloegr ac Iwerddon a sefydlydd yr Eglwys Anglicanaidd

Ganwyd Harri yn Greenwich, Llundain, ar 28 Mehefin 1491. Ail fab ydoedd i Harri VII ac Elisabeth o Efrog. Yr oedd o linach Gymreig gan fod ei hen daid Owain ap Meredydd ap Tudur yn hanu o Benmynydd, Môn. Gelwid ef gan rai Cymry yn 'fab darogan'. Cafodd yr addysg orau bosibl ar y pryd a daeth yn gwbl rugl mewn Lladin, Ffrangeg a Sbaeneg. Fe'i paratowyd ar gyfer gyrfa yn yr eglwys, ond pan fu farw ei frawd Arthur yn 15 oed ym 1502 daeth Harri yn etifedd yr orsedd ac fe'i coronwyd ym 1509. Roedd yn ŵr ifanc athletaidd, cyffrous, poblogaidd a'i orsedd yn ddiogel. Roedd yn ddyn deallus a allai fod yn eithriadol o ddidostur wrth wynebu unrhyw her i'w frenhiniaeth. Roedd yn ymwybodol o bwysigrwydd cefnogaeth ei bobl ac yr oedd yn graff wrth ddewis ei gynorthwywyr.

Yn nyddiau cynnar ei frenhiniaeth rhoddodd gefnogaeth frwd i'r Pab yn Rhufain yn erbyn Martin Luther, y diwygiwr Protestannaidd. Oherwydd hynny cafodd ei anrhydeddu gyda'r teitl 'Amddiffynnydd y Ffydd' gan y Pab ym 1521. Pan oedd yn ifanc roedd yn awyddus i ennill anrhydeddau fel milwr ac nid oedd ganddo unrhyw ddiddordeb mewn bod yn wladweinydd trefnus. Gadawai hynny i gyd i Thomas Wolsey a ddaeth yn un o weinidogion grymusaf y goron erioed. Costiodd ei fuddugoliaethau cynnar ym 1513 ffortiwn i Harri – ei fuddugoliaeth dros y Ffrancod ym Mrwydr yr Ysbardunau ac yn erbyn yr Albanwyr yn Flodden. Roedd pwyslais polisi tramor Harri VIII yn canolbwyntio ar orllewin Ewrop a'r berthynas anodd rhwng Sbaen, Ffrainc a'r Ymerodraeth Sanctaidd Rufeinig. Buddsoddodd symiau mawr o arian yn y llynges a thyfodd ei maintioli o bum llong i 53. Yn ystod ail hanner ei deyrnasiad yr oedd dwy brif elfen a ddylanwadodd yn drwm ar hanes Prydain sef y Diwygiad Protestannaidd a sefydlu Eglwys Loegr.

Priododd Harri weddw ei frawd sef Catherine o Aragon ym 1509. Cawsant un plentyn, sef Mari, a aned ym 1516 ac yr oeddent yn dra awyddus i gael mab ond buont yn aflwyddiannus. Felly, ceisiodd Harri ysgaru ei wraig er mwyn priodi Anne Boleyn. Yr unig un a allai ganiatáu ysgariad oedd y Pab a gwrthodwyd ei gais. O ganlyniad trodd y brenin at Thomas Cromwell – olynydd Wolsey – ac aeth yntau at y Senedd. Yno pasiwyd mesurau yn cwtogi ar rym y Pab. Ym 1533 diddymwyd priodas Harri ac fe briododd Anne Boleyn. Esgymunwyd ef o'r eglwys gan y Pab. Y flwyddyn ddilynol daeth Deddf Goruchafiaeth i rym yn Lloegr pan ddatganwyd mai'r brenin oedd pen Eglwys Loegr – yr *Anglicana Ecclesia*. Roedd hwn yn newid enfawr a hanesyddol ar grefydd yng ngwledydd Prydain a hwylusodd ddylanwad a thwf Protestaniaeth. Gwrthodwyd talu trethi i Rufain a gorfodwyd offeiriaid i ddewis i ba ochr yr oeddent yn deyrngar. Yn fuan wedyn aethpwyd ati i ddiddymu'r mynachlogydd a gwerthwyd eu tiroedd a'u heiddo. Rhwng 1535 a 1540 caewyd yr holl fynachlogydd ac ymgyfoethogodd y goron yn ddirfawr.

Ganed Elisabeth i Harri ac Anne Boleyn ond ni chawsant fab. Dienyddiwyd Anne ar gyhuddiad o deyrnfradwriaeth ym 1536, yr un flwyddyn â Deddf Uno Lloegr a Chymru. Golygai'r Ddeddf Uno fod Cymru i fwynhau holl 'ryddid, rhyddfreiniau, hawliau a breintiau Saeson'. Ag un ergyd dilëwyd y Deddfau Penyd diraddiol. Golygai hyn y dylid defnyddio cyfraith Lloegr yng Nghymru. Hefyd o hynny ymlaen roedd tir i gael ei etifeddu yn ôl y gyfundrefn Seisnig o gyntafenedigaeth yn hytrach na'r drefn Gymreig o rannu'n gyfartal rhwng meibion. O ran yr iaith Gymraeg, Saesneg oedd i'w defnyddio yn y llysoedd barn i gyd ac nid oedd hawl gan Gymro uniaith Gymraeg i ddal swydd gyhoeddus yng Nghymru na Lloegr. Ni ddefnyddiwyd y Gymraeg mewn llysoedd tan 1942.

Gyda'i drydedd wraig Jane Seymour cafodd Harri fab sef Edward. Bu farw Jane ym 1537. Priododd deirgwaith eto cyn diwedd ei oes gydag Anne o Cleves, Katherine Howard a Catherine Parr. Ni chafwyd unrhyw blant ychwanegol. Bu farw ym Mhalas Whitehall ar 28 Ionawr 1547 ac fe'i claddwyd yng Nghapel St Siôr, Windsor.